

Llais Llanilar

Tymor yr Haf SummerTerm 2024

Gwell gwneud ein gorau na bod yn orau



Hoffwn ddiolch yn fawr i chi am eich cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn. Gwyliau haf hapus i chi gyd.

A very big thank you for your support throughout the year. We hope that you have a restful and enjoyable summer.
Staff Ysgol Llanilar

Hwyl fawr Blwyddyn 6 a Phob Lwc!

Mae hi'r adeg hynny o'r flwyddyn lle mae'n rhaid i ni ffarwelio gyda phlant Blwyddyn 6. Fe fydd hiraeth **mawr** ar eich holau Dosbarth Glyndŵr. Byddwn yn gweld eisiau eich hwyl, eich clonc, eich sgwrs a'ch sbri. Pob lwc i chi wrth i chi ddechrau pennod newydd cyffrous - mae'r ysgolion uwchradd yn ffodus iawn i'ch cael chi. Diolch yn fawr am fod yn ffrind i bawb yn yr ysgol. Diolch am fod mor eiddgar a brwdfrydig ymhob agwedd o fywyd Ysgol Llanilar.

Rydych chi'n sêr!



Good-bye Blwyddyn 6 and Good Luck!

It's that time of year when we have to say goodbye to our Year 6 children. You will be **greatly** missed Dobsarth Glyndŵr. We will miss your fun, your banter, your chats and your spree. Best of luck to you as you begin an exciting new chapter—the secondary school are very lucky to have you. Thank you very much for being a friend to everyone. Thank you for being so eager and enthusiastic in every aspect of Ysgol Llanilar's life. You are stars!

Tymor yr Hydref yn ail-ddechrau ar
04/09/24.

Autumn term
begins on 04/09/24

Hwyl fawr Mrs Evans a diolch!

Ar ôl 24 o flynyddoedd yn Ysgol Llanilar, rydym yn ffarwelio gyda Mrs Mary Evans. Mae Mrs Evans wedi bod wrth ei bodd yn gweithio gyda phlant dysgu sylfaen ac wedi helpu cannoedd o blant wrth iddynt gychwyn yn yr ysgol. Mae hi hefyd wedi gweithio yn y Clwb Brecwast ac wedi arwain Clwb Ilar. Fe wnaeth Blwyddyn 6 gyfweld â Mrs Evans.

Bwth fyddwch yn gweld eisiau? Byddai'n colli plant a chwmni'r staff.

Beth ydych chi wedi mwynhau? Gweld sioeau ysgol a phawb yn gwisgo lan i Sioeau Nadolig. Dwi wedi mwynhau dysgu ioga ichi ac wrth gwrs dwi wedi mwynhau cinio Nadolig bob blwyddyn!

Mae Mrs Evans yn credu bod dysgu plant mewn ffordd greadigol, fel rydym yn gwneud yn Ysgol Llanilar, yn ffordd well o ddysgu.

Diolch yn fawr Mrs Evans am yr holl flynyddoedd o ofal ac o gyfeillgarwch. Dymunwn bob lwc i chi a dewch nôl i'n gweld yn glou.

After 24 years at Ysgol Llanilar, we say goodbye to Mrs Mary Evans. Mrs Evans has loved working with children in the foundation years and has helped hundreds of children as they start their journey through the school. She has also worked in the breakfast club and led Clwb Ilar. In an interview with Year 6, Mrs Evans said that she was going to miss the children and the company of the staff.

What are your favourite things at school? Seeing school plays and everyone dressing up for a Christmas Show. I will also miss teaching you yoga and of course Christmas dinner!

Mrs Evans believes that teaching children in a creative way, as we do at Ysgol Llanilar, is a better way of learning.

We wish Mrs Evans all the best - we know that we'll see her in school before too long.

Cyngerdd ar y Cae

Festival on the Field



Rydym hefyd yn ffarwelio gyda Mrs Louise Davies sydd wedi gweithio yn y Clwb Brecwast ers 8 mlynedd. Diolch yn fawr iddi am sicrhau bod bob plentyn yn cael digon o dost a sudd ben bore.

We are also saying goodbye to Mrs Louise Davies who has worked at the Breakfast Club for 8 years. Many thanks to her for ensuring that every child gets enough toast and juice in the morning.

Ar Orffennaf yr 11eg cawsom wledd o gyngerdd wedi ei leoli ar gae yr ysgol. Cafodd pob dosbarth y cyfle i ddangos eu doniau trwy ganu, dawnsio a chwarae offerynnau. Er y glaw, cawsom hwyl a sbri wrth berfformio! Cawsom wledd ar ddechrau'r gyngerdd gydag offerynwyr yn arddangos eu sgiliau. Cafwyd berfformiadau godidog gan blant dosbarth Gelert a Barti Ddu yn dawnsio gwerin a chwarae mewn band y gegin! Rhannodd dosbarth Gwenllian eu sgiliau yn chwarae pbuzz a dosbarth Llywelyn yn chwarae'r ukelele. Roedd dosbarth Glyndwr wrth eu boddau'n meimio i ganeuon Cymraeg! Gorffennodd y noson gyda chôr y plant hŷn yn morio canu caneuon Nia Ben Aur. Rydym yn edrych ymlaen at y gyngerdd ar y cae y flwyddyn nesaf yn barod—gan groesi bysedd am dywydd sych!

On July the 11th we had a feast of a concert located on the school field. All classes had the opportunity to show their talents by singing, dancing and playing instruments. Despite the rain, we had fun while performing! The concert started with the instrumentalist sharing their skills. There were magnificent performances by the children of Gelert class and Barti Ddu, folk dancing and playing in the kitchen band! Gwenllian's class shared their skills playing pbuzz and Llywelyn's class playing the ukelele. Glyndwr's class loved miming to Welsh songs! The evening ended with the older children's choir singing Nia Ben Aur songs. We are already looking forward to the concert on the field next year — keeping our fingers crossed for dry weather!



Mabolgampau Cylch

Llongyfarchiadau i'n disgyblion fu'n cystadlu yng nghystadleuaeth Mabolgampau Cylch yn ystod y tymor. Llwyddodd nifer ohonynt gipio'r wobr gyntaf, ail a trydydd wrth gystadlu yn erbyn goreuon yr ardal- arbennig!

Congratulations to our pupils who competed in the Area Sports day at the end of the term. Many succeeded to finish in the top three competing against the best in the area- fantastic!



LLONGYFARCHTADAU



Da iawn chi am ennill gwobr Cefnwr y flwyddyn a Blaenwr y flwyddyn yn dilyn tymor yn chwarae i dîm rygbi ysgolion Ceredigion.

Well done for winning the award for Forward of the year and Back of the year following a season playing for Ceredigion Schools' Rugby team.

Da iawn i'r criw yma am fod yn ran o'r sioe Frozen yng nghanolfan y Celfyddydau yn ddiweddar- arbennig!

Well done to these pupils for being part of the Frozen production at the Arts Centre recently- fantastic!



Da iawn ti am gystadlu yng Ngala nofio ADASC yn ddiweddar ac am ganlyniadau gwych!

Well done for competing in the ADASC swimming gala recently and for excellent results!

Dosbarth

Gelert

Aeth Dosbarth Gelert a Barti Ddu ar driprysgol i Quackers. Cafodd pawb amser wrth eu bodd yn dringo, llithro a chyd-chwarae yn hwylus! Diwrnod gwych!

Dosbarth Gelert and Barti Ddu went on a school trip to Quackers. Everyone had a great time climbing, sliding and playing



Ein thema dros yr hanner tymor diwethaf oedd 'Ar lan y môr'. Buom yn mwynhau dysgu am fôr-ladron gan greu animeiddiad a map trysor. Buom hefyd yn creu siop hufen iâ ac yn prynu a gwerthu hufen ia blasus!

Our theme over the last half term was 'By the sea'. We enjoyed learning about pirates, creating an animation and a treasure map. We also created an ice cream shop and bought and sold delicious ice



Dyma ni yn ymarfer yn ystod y prynhawn.

Here we are practising during the afternoon.

Mwynhewch wyliau'r haf!

Enjoy the summer holidays!



Cafwyd noson arbennig yn diddanu rhieni a ffrindiau'r ysgol yn ystod ein Cyngerdd ar y Cae. Fe ddaeth y glaw ond cafodd pawb hwyl yn canu, dawnsio a chwarae offerynnau. Da iawn bawb!

Our Concert on the Field was an of evening entertaining parents and friends of the school. The rain came but everyone enjoyed singing, dancing, and playing instruments.

HER STEM ROBOLYMPAIDD



Fel rhan o'n thema Robolympaidd, bu'r disgyblion yn dysgu am rym brigwth a gwrthiant aer er mwyn dylunio cwch fyddai'n gallu teithio ar ddŵr gan ddefnyddio pŵer gwynt. Cafwyd llawer o hwyl yn dylunio, creu ac arbrofi!

As part of our theme, the pupils have been learning about buoyancy and air resistance to design a boat that can travel on water powered by wind. We had a great day designing, making and experimenting!




Sgorfwrdd (hyd ymal)

- 1- Ffindir
 - 2- Prydain
 - 3- Tseina
 - 4- Groeg
 - 5- Siapan
 - 6- De Affrica
 - 7- Iwerddon
- Sbaen
Moldofia
Twrci
Iwerddon
Uganda
Awstralia
Ghana

Dosbarth Barti Ddu

Yn ystod yr hanner tymor hwn rydyn ni wedi bod yn dysgu am drychfilod a chylchred bywyd Pili-pala. Fe wnaethom fwynhau arsylwi ar y gwahanol rannau o gylchred bywyd Pili-pala.

During this half term we have been learning about insects and the life cycle of a Butterfly. We enjoyed observing the different stages in a butterfly's life cycle.



"Cefais hwyl yn gadael y Pili-pala i fynd a gwyllo ble hedfanodd y Pili-pala."

"Fe wnes i joio creu gwesty trychfilod allan o bethau ailgylchu gyda fy ffrindiau."



"Dwi wedi mwynhau chwilio am drychfilod yn yr ardd synhwyraidd."

Dosbarth Barti Ddu

Dathliad Proseict Creadigol / Creative Project Celebration

Cawsom ddathliad gyda theulu a ffrindiau i ddathlu'r misoedd diwethaf o gyd-weithio gyda Heledd. Roedd hyn yn gyfle arbennig i rannu'r llyfr llafar, dawns a'r map rydym wedi creu.

Mae ein teulu a ffrindiau yn ddawnswyr da!

We hosted a celebration with family and friends to celebrate the last few months of working alongside Heledd. This was a special opportunity to share the audiobook, dance and the map that we have created. Our family and friends are good dancers!



Dewch i wrando!

Quackers!

Diwrnod o hwyl a sbri yn Quackers i ddathlu'r holl waith caled mae'r plant wedi cyflawni ar draws y flwyddyn!

A day of fun in Quackers to celebrate all the hard work the children have achieved throughout the year!



Mabolgampau

Cynhaliwyd ein Mabolgampau ysgol ar ddechrau'r hanner tymor ac am brynhawn gwych o gystadlu! Llongyfarchiadau mawr i lys Rheidol am ddod i'r brig ac hefyd i Efan a Mati am ennill wobr Gwenno Tudor.

We held our Sports day at the beginning of the half term and what a fantastic afternoon of competing! Congratulations to Rheidol for winning the sports team and to Efan and Mati for winning the Gwenno Tudor award.



Dosbarth

A dyma ni! Diwedd flwyddyn! Am flwyddyn llawn hwyl a sbri. Mae'r plant wedi mwynhau dysgu sgiliau newydd gan gynnwys P-Buzz a'r Ffidil. Roedd e'n braf gweld plant blwyddyn 3 a 4 yn perfformio yn ystod ein sioe haf, Nia Ben Aur. Sêr, pob un ohonynt!

And there we have it, the end of another school year! It's been a fun one with lots of new skills being learnt. The children have enjoyed learning the P-Buzz and the Violin. It was lovely seeing them perform in our summer show, Nia Ben Aur. Stars, all of them!

Daeth ymelwyr arbennig i'r ysgol yn ystod y tymor. Daeth James Williams i'r Ysgol gyda'i gar rali i ddangos i'r plant. Roedd pawb wedi cael hwyl yn mynd allan a gofyn cwestiynau iddo am ei gar ac am rallo. Roedd gwahaniaethau mawr rhwng ei gar a cheir rhieni'r plant. Sypreis mwyaf i'r plant oedd bod dim lle iddynt eistedd yng nghefn y car! Roedd cyffro llwyr pan oedd y car yn gwneud sŵn enfawr! Diolch am ddedd i'n gweld ni!

A special visitor came to school this term. James Williams came to school to show his rally car to the children. Everybody had fun asking questions and finding out facts about his car and his career. There were massive differences between his car and those of the children's parents' cars. The biggest surprise was that there was no room in the back of the car for the children to sit! There was massive excitement when the car was making loud noises! Thank you for coming to see us!



Gwenllian

Dosbarth Llywelyn

Mae'r plant Dosbarth Llywelyn wedi cael hanner tymor prysur dros ben wrth iddyn nhw ymgymryd â'r her Robolympaidd STEM, Sioe Nia Ben Aur, mabolgampau a mabolgampau cylch! Ond y newydd fwyaf cyffrous i ddosbarth Llywelyn oedd y ffaith ei bod wedi ennill gwobr Genedlaethol fel rhan o Fenter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig. Llwyddodd y plant ennill gwobrau gwerth £500 i'r Ysgol gan gynnwys ymweliad oddi wrth Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus y Comisiwn. Aeth dau aelod o'r Dosbarth i'r seremoni arbennig a gynhaliwyd yn Llyfrgell Genedlaethol. Dyma i chi cod QR sydd yn ymddangos y gwaith campus wnaeth y plant ar y pyllau glo. Da iawn chi plantos!

The children have had an extremely busy half term as they take on the STEM Robolympiad challenge, the Nia Ben Aur Show, sports day and the area sports! But the most exciting news for Llywelyn's class was the fact that it had won a National award as part of the Welsh Heritage Schools Initiative. The children won prizes worth £500 for the School including a visit from the Commission's Public Relations Officer. Two members of the class went to the special ceremony held at the National Library. Here is a QR code that shows the excellent work the children did on the coal mines. Well done!



Dosbarth Glyndŵr

Mae Dosbarth Glyndŵr wedi bod yn brysur yn ystod yr hanner tymor yn dysgu ac ymarfer Sioe Nia Ben Aur. Rydyn ni hefyd wedi croesawu ymwelwyr atom i ddysgu sgiliau Cymorth Cyntaf, arwyddion BSL, ymweliad gan y nyrs ysgol ac ymweliad gan PC Hannah er mwyn ein cadw'n ddiogel mewn gweithgareddau amrywiol.

Glyndŵr class has been very busy during the half term practicing and performing the Nia Ben Aur Show. We have also welcomed visitors to class to learn first aid skills, BSL sign language, a visit from our school nurse and a visit from PC Hannah to help keep us safe during activities.



Da iawn i'n disgyblion Blwyddyn 6 fu'n perfformio yng nghyngerdd y Proms ar ddechrau fis Gorffennaf.

Well done to our Year 6 pupils for performing in the Proms concert at the beginning of July.





Pob lwc i'n disgyblion Blwyddyn 6 ar gyfer mis Medi!

Good luck to our Year 6 pupils for September!

Sioe Nia Ben Aur

Llongyfarchiadau i'n disgyblion fu'n perfformio yn ein addasiad o sioe Nia Ben Aur. Roedden nhw i gyd yn arbennig a cafwyd noson o chwerthin a mwynhau gan bawb.

We were so proud of all our pupils for performing our adaption of Nia Ben Aur. They were all excellent and a fun evening was had by all.



Cystadleuaeth Tatws Cyngor Sioe Llanilar Potato Competition



Diolch anferthol i Gyngor Sioe Llanilar unwaith yn rhagor am drefnu cystadleuaeth tatws yn yr ysgol. Roedd yn hyfryd i weld cymaint o blant (a staff!) yn cymryd rhan. Edrychwn ymlaen at weld pawb yn Sioe Llanilar ar y 10fed o Awst. Fe fydd darn o gelf gan bob plentyn yn y gystadleuaeth gelf. Pob lwc bawb!

A very big thank you to Llanilar Show Council once again for organising the school's potato competition. It was lovely to see so many children (and staff!) getting involved. We look forward to seeing everyone at the Llanilar Show on the 10th of August. Each child will have a piece of art in the art competition. Good luck everyone!

Proms Ysgolion Cynradd Ceredigion

Llongyfarchiadau enfawr i Ddosbarth Glyndwr ac i Maredudd, Amy a Kitty am berfformio mor wych yn y Proms. Da iawn hefyd i Mr Roberts am arwain y côr.



Huge congratulations to Dosbarth Glyndwr and to Maredudd, May and Kitty for performed brilliantly in the School Proms. Gwych! Well done Mr Roberts for conducting the choir.

Diolch yn fawr

Diolch yn fawr i bawb am eich cefnogaeth eleni / A big thank you to everyone for supporting the school this year:

Llywodraethwyr / Governors

Y GRhFfa/ The PTFA

Sefydliad y Merched / The W.I.

Rhieni a ffrindiau'r ysgol / Parents and friends of the school

Parch Canon Smith

Busnesau'r gymuned / Businesses in the community

Cyngor Llanilar Community

Sefydliad y Merched — W.I.

Dolch yn fawr i aelodau o Sefydliad y Merched, Llanilar, am ddod i ddarllen ac i sgwrsio gyda phlant yr ysgol. Rydym wrth ein bodd yn cael cyfle i fod yn eu cwmni. Diolch Betty, Jenny, Judy, Janet a Val. Edrychwn ymlaen at eich gweld ym mis Medi.

A very big thank you to members of Llanilar W.I. for reading and chatting with the children. We enjoy seeing them arrive on a Thursday morning—thank you Betty, Jenny, Judy, Janet a Val. We look forward to seeing you in September.